**3**.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n prosesu unrhyw sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n deillio o anifail sy'n cnoi cil, gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gofnodi dyddiadau a chanlyniadau mesuriadau a wnaed yn unol â pharagraff 2.

(2) Ar gyfer yr holl hylif a gaiff ei ollwng neu ei draddodi o'r fangre brosesu, rhaid iddo, gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gofnodi-

(a) ai hylif wedi'i drin neu heb ei drin oedd yr hylif;

(b) dyddiad a dull ei ollwng neu ei draddodi;

(c) faint ohono a ollyngwyd neu a draddodwyd;

(ch) ym mha le y'i gollyngwyd, neu'r fangre y traddodwyd ef iddi; a

(d) enw'r cludydd, os oedd cludydd.

(3) Mae methu cydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r paragraff hwn yn dramgwydd.

(**1**) Ceir hwn yn y gyfres "Methods for the Examination of Waters and Associated Materials" sydd ar gael ar dudalen we Asiantaeth yr Amgylchedd ar y rhyngrwyd (http://www.environment-agency.gov.uk/nls) ond a gyhoeddwyd cyn hynny gan y Llyfrfa fel ISBN 011751957X.

(**2**) Ceir hwn yn y gyfres "Methods for the Examination of Waters and Associated Materials" sydd ar gael ar dudalen we Asiantaeth yr Amgylchedd (http://www.environment-agency.gov.uk/nls) ond a gyhoeddwyd cyn hynny gan y Llyfrfa fel ISBN 0117522120.

(2) The operator must continuously monitor the level of suspended solids in the treated fluid or alternatively measure it three times a day.

(3) Once a week the operator must measure the level of suspended solids in the treated fluid by a method that conforms with "Suspended Settleable and Total Dissolved Solids in Waters and Effluents(**1**)".

(4) Once a week the operator must measure the biochemical oxygen demand of the treated fluid by a method which conforms with the "5 day Biochemical Oxygen Demand (BOD5)(**2**)".

(5) If any of these measurements demonstrates that the treated fluid does not comply with the levels in paragraph 1(1)(b) the operator must ensure that the operator only discharges the treated fluid in accordance with paragraph 1(1)(a) until further tests show that the treatment system is achieving the required levels.

(6) It is an offence to fail to comply with any provision of this paragraph.

**Records**

**3**.-(1) Any person who processes any ruminant animal by-products must, as soon as is reasonably practicable, record the dates and results of the measurements taken in accordance with paragraph 2.

(2) For all fluid discharged or consigned from the processing premises that person must, as soon as is reasonably practicable, record-

(a) whether the fluid was treated or untreated;

(b) the date and method of the discharge or consignment;

(c) the quantity discharged or consigned;

(d) where it was discharged, or the premises to which it was consigned; and

(e) the name of the haulier, if any.

(3) It is an offence to fail to comply with any provision of this paragraph.

(**1**) This is set out in the series "Methods for the Examination of Waters and Associated Materials" available on the Environment Agency internet web-page (http://www.environment-agency.gov.uk/nls) but previously published by HMSO as ISBN 011751957X.

(**2**) This is set out in the series "Methods for the Examination of Waters and Associated Materials" available on the Environment Agency internet web-page (http://www.environment-agency.gov.uk/nls) but previously published by HMSO as ISBN 0117522120.

**Cofnodion traddodi**

**4**.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n traddodi unrhyw hylif sy'n deillio o brosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n deillio o anifail sy'n cnoi cil (p'un ai ef ei hun a'u prosesodd ai peidio) o unrhyw fangre, gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gofnodi-

(a) cyfeiriad y fangre y cesglir yr hylif ohoni;

(b) y dyddiad y cesglir yr hylif;

(c) faint o hylif a disgrifiad ohono, ac ai hylif wedi'i drin neu heb ei drin ydyw;

(ch) y fan lle y mae i'w ollwng neu i'w waredu.

(2) Rhaid iddo roi copi i'r person sy'n cludo'r hylif.

(3) Rhaid i'r cludydd gadw ei gopi o'r cofnod gyda'r llwyth hyd oni ollyngir neu oni waredir yr hylif.

(4) Rhaid i'r sawl sy'n traddodi gadw copi o'r cofnod am ddwy flynedd o leiaf, a rhaid i'r cludydd ei gadw am ddwy flynedd o leiaf.

(5) Mae methu cydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r paragraff hwn yn dramgwydd.

**Records of consignment**

**4**.-(1) Any person who consigns any fluid arising from the processing of ruminant animal by-products (whether or not that person processed the by-products personally) from any premises must, as soon as is reasonably practicable, record-

(a) the address of the premises from which the fluid is collected;

(b) the date on which the fluid is collected;

(c) the quantity and description of the fluid, and whether treated or untreated;

(d) the place at which it is to be discharged or disposed of.

(2) He or she must give a copy to the person who transports the fluid.

(3) The transporter must keep his or her copy of the record with the consignment until the fluid is discharged or disposed of.

(4) The consignor mustl keep a copy of the record for at least two years, and the transporter must keep it for at least two years.

(5) It is an offence to fail to comply with any provision of this paragraph.

## ATODLEN 3

Rheoliad 21

Dulliau Profi

### RHAN I

Y DULL AR GYFER YNYSU
*CLOSTRIDIUM PERFRINGENS*

**Amser profi**

**1**. Rhaid dechrau'r profion pan ddaw'r sampl i law neu ar y diwrnod gwaith cyntaf sy'n caniatáu i'r dull hwn gael ei gwblhau. Os na ddechreuir y prawf ar y diwrnod y daw'r sampl i law rhaid ei storio mewn oergell rhwng 2°C ac 8°C nes bydd ei hangen. Os cafodd y sampl ei rhoi mewn oergell, rhaid ei thynnu o'r oergell a'i storio ar wres ystafell am o leiaf un awr cyn i'r prawf ddechrau.

**Samplau**

**2**. Rhaid cyflawni'r profion drwy ddefnyddio dwy gyfran 10 gram o bob sampl a gyflwynir i'w phrofi. Rhaid i bob sampl 10 gram gael ei rhoi'n aseptigol mewn cynhwysydd sterilaidd sy'n cynnwys 90 ml *Clostridium perfringens* o wanedydd a wnaed o 0.1% pepton a 0.8% sodiwm clorid wrth pH o 7 a'i chymysgu'n drwyadl nes bod y sampl mewn daliant gwastad.

**Planiadau**

**3**. Am bob cyfran o'r sampl rhaid trosglwyddo 1 ml o'r hydoddiant i ddysgl petri 90 mm sterilaidd (yn ddyblyg) y mae'n rhaid ychwanegu ynddi 15 ml o agar Shahidi-Ferguson (agar SF)(**1**) ar dymheredd o 47°C±1°C a'i gymysgu ar unwaith a chan bwyll drwy droelli'r ddysgl 5 gwaith yn glocwedd a 5 gwaith yn wrthglocwedd.

**4**. Pan fydd yr agar wedi ceulo, rhaid troshaenu pob plât agar â 10 ml pellach o agar SF ar dymheredd o 47°C±1°C. Pan fydd y droshaen wedi ceulo a chyda'r platiau at i fyny, rhaid deor y platiau'n anerobig ar 37°C±1°C am 20 awr±2 awr.

(**1**) Shahidi-Ferguson Agar - *Gweler* Shahidi, S.A. a Ferguson, A.R. (1971) Applied Microbiology 21:500-506. American Society for Microbiology, 1913 1 St N.W., Washington DC 20006, UDA.

## SCHEDULE 3

Regulation 21

Testing Methods

### PART I

METHOD FOR THE ISOLATION OF
*CLOSTRIDIUM PERFRINGENS*

**Time of testing**

**1**. Tests must be begun on receipt of the sample or on the first working day which allows this method to be completed. If the test is not begun on the day of receipt the sample must be stored in a refrigerator at between 2°C and 8°C until required. If the sample has been refrigerated it must be removed from the refrigerator and stored at room temperature for at least one hour before the test is started.

**Samples**

**2**. Tests must be carried out using two 10 gram portions of each sample submitted for testing. Each 10 gram sample must be placed aseptically in a sterile container containing 90 ml *Clostridium perfringens* diluent consisting of 0.1% peptone and 0.8% sodium chloride at a pH of 7 and mixed thoroughly until the sample is evenly suspended.

**Inoculations**

**3**. For each portion of the sample 1 ml of solution must be transferred to a sterile 90 mm petri dish (in duplicate), to which 15 ml of Shahidi - Ferguson agar (SF agar)(**1**) at a temperature of 47°C±1°C must be added and immediately gently mixed by swirling the dish with 5 clockwise and 5 anticlockwise circular movements.

**4**. Once the agar has set, each agar plate must be overlaid with a further 10 ml SF agar at a temperature of 47°C±1°C. Once the overlay has set and with the plate lids uppermost the plates must be incubated anaerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

(**1**) Shahidi-Ferguson agar - *See* Shahidi, S. A. and Ferguson, A. R. (1971) Applied Microbiology 21:500-506.American Society for Microbiology, 1913 1 St N.W., Washington DC 20006, USA.

**Samplau â chytrefi *Clostridium perfringens***

**5**. Ar ôl y deoriad rhaid archwilio pob set o blatiau dyblyg am gytrefi nodweddiadol o *Clostridium perfringens* (du). Bydd y sampl yn methu dros dro os bydd unrhyw gytrefi sy'n nodweddiadol o *Clostridium perfringens* yn bresennol, ac yn yr achos hwnnw rhaid dilyn y weithdrefn ganlynol er mwyn cadarnhau ai cytrefi o *Clostridium perfringens* ydynt ai peidio.

**6**. Yn achos pob plât, rhaid is-feithrin 10 cytref nodweddiadol o *Clostridium perfringens* ar blât agar SF pellach. Os bydd llai na 10 cytref ar y plât, rhaid is-feithrin pob cytref nodweddiadol ar blât pellach. Rhaid deor y platiau'n anerobig ar 37°C±1°C am 20 awr±2 awr.

**7**. Os oes gordyfiant ar arwynebedd y platiau ac nad yw'n bosibl dethol cytrefi nodweddiadol a ynyswyd yn dda, rhaid is-feithrin 10 cytref a amheuir ar ddyblygiadau o blatiau agar SF a'u deor yn anerobig ar 37°C±1°C am 20 awr±2 awr.

**8**. Rhaid is-feithrin un gytref nodweddiadol o bob plât ar yr agar SF a'i deor yn anerobig ar 37°C±1°C am 20 awr±2 awr.

**Cytrefi a gafodd eu his-feithrin**

**9**. Ar ôl y deoriad rhaid archwilio pob plât am gytrefi sy'n nodweddiadol o *Clostridium perfringens.* Rhaid i bob cytref sy'n nodweddiadol o *Clostridium perfringens*-

(a) gael trywanblaniad i gyfrwng symudoldeb nitrad(**1**); a

(b) ei phlannu naill ai mewn cyfrwng gelatin lactos(**2**) neu mewn disgiau gelatin golosg(**3**);

a'u deor yn anerobig ar 37°C±1°C am 20 awr±2 awr.

**Symudoldeb**

**10**. Rhaid archwilio'r cyfrwng symudoldeb nitrad am y math o dyfiant ar hyd y llinell drywanu. Os oes tystiolaeth o dyfiant yn tryledu i mewn i'r cyfrwng oddi wrth y llinell drywanu, rhaid ystyried bod y bacteria yn symudol.

(**1**) Motility nitrate medium - *Gweler* Hauschild AHW, Gilbert RJ, Harmon SM, O'Keefe MF, Vahlefeld R, (1997) ICMSF Methods Study VIII, Canadian Journal of Microbiology 23, 884-892. National Research Council of Canada, Ottawa ON K1A OR6, Canada.

(**2**) Lactos gelatin medium - *Gweler* Hauschild AHW, Gilbert RJ, Harmon SM, O'Keefe MF, Vahlefield R, (1997) ICMSF Methods Study VIII, Canadian Journal of Microbiology 23, 884-892.

(**3**) Charcoal gelatin discs -*Gweler* Mackie a McCartney, (1996) Practical Medical Microbiology 14, 509. Churchill Livingstone, Robert Stevenson House, 1-3 Baxter's Place, Leith Walk, Caeredin EH1 3AF.

**Samples with colonies of *Clostridium perfringens***

**5**. After incubation each set of duplicate plates must be examined for colonies characteristic of *Clostridium perfringens* (black). The sample provisionally fails if any colonies characteristic of *Clostridium perfringens* are present, in which case the following procedure must be followed to establish whether or not the colonies are *Clostridium perfringens*.

**6**. In the case of each plate, 10 characteristic colonies of *Clostridium perfringens* must be subcultured on to a further SF agar plate. If there are less than 10 colonies on the plate, all characteristic colonies must be subcultured on to the further plate. The plates must be incubated anaerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

**7**. If the surface area of the plates is overgrown and it is not possible to select well isolated characteristic colonies, 10 suspect colonies must be subcultured on to duplicate SF agar plates and incubated anaerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

**8**. One characteristic colony from each plate must be subcultured on to SF agar and incubated anaerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

**Subcultured colonies**

**9**. After incubation each plate must be examined for colonies characteristic of Clostridium perfringens. All colonies characteristic of *Clostridium perfringens* must be-

(a) stab inoculated into motility nitrate medium(**1**); and

(b) inoculated into either lactose gelatin medium(**2**) or charcoal gelatin discs(**3**);

and incubated anaerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

**Motility**

**10.** The motility nitrate medium must be examined for the type of growth along the stab line. If there is evidence of diffuse growth out into the medium away from the stab line, the bacteria must be considered to be motile.

(**1**) Motility nitrate medium - *See* Hauschild AHW, Gilbert RJ, Harmon SM, O'Keefe MF, Vahlefield R, (1997) ICMSF Methods Study VIII, Canadian Journal of Microbiology 23, 884-892. National Research Council of Canada, Ottawa ON K1A oR6, Canada

(**2**) Lactose gelatin medium - *See* Hauschild AHW, Gilbert RJ, Harmon SM, O'Keefe MF, Vahlefield R, (1997) ICMSF Methods Study VIII, Canadian Journal of Microbiology 23, 884-892.

(**3**) Charcoal gelatin discs - *See* Mackie and McCartney, (1996) Practical Medical Microbiology 14, 509. Churchill Livingstone, Robert Stevenson House, 1-3 Baxter's Place, Leith Walk, Edinburgh EH1 3AF.

**Rhydwytho nitrad yn nitrid**

**11**. Ar ôl archwilio'r cyfrwng symudoldeb nitrad, rhaid ychwanegu ato 0.2 ml i 0.5 ml o adweithydd canfod nitrid. Bydd lliw coch yn ymffurfio yn cadarnhau bod y bacteria wedi rhydwytho nitrad i nitrid. Rhaid diystyru meithriniadau sy'n dangos adwaith wan (h.y. lliw pinc). Os na fydd lliw coch yn ymffurfio cyn pen 15 munud, rhaid ychwanegu swm bach o lwch zinc a gadael i'r plât sefyll am 15 munud. Os bydd lliw coch yn ymffurfio ar ôl ychwanegu llwch zinc, bydd hyn yn cadarnhau nad yw nitrad wedi'i rydwytho'n nitrid.

**Cynhyrchu nwy ac asid o lactos a gelatin yn troi'n hylif**

**12**. Rhaid archwilio'r cyfrwng gelatin lactos am bresenoldeb swigod bach nwy yn y cyfrwng.

**13**. Rhaid archwilio'r cyfrwng gelatin lactos am liw. Mae lliw melyn yn dangos bod y lactos wedi eplesu.

**14**. Rhaid oeri'r cyfrwng gelatin lactos am un awr ar 2- 8°C ac yna'i wirio i weld a yw'r gelatin wedi hylifo. Os yw'r cyfrwng wedi ymsolido, rhaid ei ailddeor yn anerobig am 18- 24 awr eto, oeri'r cyfrwng am un awr eto ar 2- 8°C a'i wirio eto i weld a yw'r gelatin wedi hylifo.

**15**. Rhaid penderfynu ar bresenoldeb *Clostridium perfringens* ar sail y canlyniadau o baragraffau 10 i 14. Rhaid ystyried bod bacteria sy'n cynhyrchu cytrefi duon ar agar SF, yn ansymudol, yn rhydwytho nitrad yn nitrid, yn cynhyrchu nwy ac asid o lactos ac yn hylifo gelatin o fewn 48 awr yn *Clostridium perfringens*.

**Profion Rheoli**

**16**. Rhaid cynnal profion rheoli bob dydd wrth ddechrau profi gan ddefnyddio-

(a) *Clostridium perfringens* heb fod yn fwy na saith niwrnod oed ar adeg ei ddefnyddio;

(b) *Escherichia* coli NCTC 10418((**1**) neu sylwedd cyfwerth iddo nad yw'n fwy na saith niwrnod oed ar adeg ei ddefnyddio; ac

(c) protein anifeiliaid neu gompost neu weddill traul wedi'i brosesu sy'n rhydd rhag *Clostridium perfringens*.

(**1**) The National Collection of Type Cultures, Central Public Health Laboratory, 61 Colindale Ave, Llundain NW9 5HT.

**Reduction of nitrate to nitrite**

**11**. After examination of the motility nitrate medium, 0.2 ml to 0.5 ml of nitrite detection reagent must be added to it. The formation of a red colour confirms that the bacteria have reduced nitrate to nitrite. Cultures that show a faint reaction (i.e. a pink colour) should be discounted. If no red colour is formed within 15 minutes, a small amount of zinc dust must be added and the plate allowed to stand for 15 minutes. If a red colour is formed after the addition of zinc dust no reduction of nitrate to nitrite has taken place.

**Production of gas and acid from lactose and liquefaction of gelatin**

**12**. The lactose gelatin medium must be examined for the presence of small gas bubbles in the medium.

**13**. The lactose gelatin medium must be examined for colour. A yellow colour indicates fermentation of lactose.

**14**. The lactose gelatin medium must be chilled for one hour at 2 - 8°C and then checked to see if the gelatin has liquefied. If the medium has solidified it must be re-incubated anaerobically for a further 18 - 24 hours, the medium chilled for a further one hour at 2 - 8°C and again checked to see if the gelatin has liquefied.

**15**. The presence of *Clostridium perfringens* must be determined on the basis of the results from paragraphs 10 to 14. Bacteria which produce black colonies on SF agar, are non-motile, reduce nitrate to nitrite, produce gas and acid from lactose and liquefy gelatin within 48 hours must be considered to be *Clostridium perfringens*.

**Control Tests**

**16**. Control tests must be carried out each day that a test is initiated using-

(a) *Clostridium perfringens* no more than seven days old at the time of use;

(b) *Escherichia* coli NCTC 10418(**1**) or equivalent not more than seven days old at the time of use; and

(c) processed animal protein or compost or digestion residue which is free of *Clostridium perfringens*.

(**1**) The National Collection of Type Cultures, Central Public Health Laboratory, 61 Colindale Ave, London NW9 5HT.

**17.** Rhaid rhoi darnau 10 gram o brotein anifail wedi'i rendro yn aseptigol yn y naill a'r llall o ddau gynhwysydd sterilaidd sy'n cynnwys 90 ml o Ddŵr Pepton Byfferog (BPW)(**1**) a'i gymysgu'n drwyadl nes bod y samplau mewn daliant gwastad.

**18**. Rhaid rhoi un gytref o *Clostridium perfringens* mewn 10 ml BPW a'i chymysgu i ffurfio daliant gwastad. Rhaid ychwanegu 0.1 ml o'r daliad at y daliad yn y paragraff blaenorol. Rhaid ailadrodd hyn ar gyfer *Escherichia coli*.

**19**. Yna caiff y rhain eu trin a'u harchwilio yn yr un modd â'r samplau prawf. Os na ffurfir cytrefi nodweddiadol yna rhaid bod profion y diwrnod hwnnw'n annilys a rhaid eu hailadrodd.

**17**. 10 gram portions of the rendered animal protein must be placed aseptically in each of two sterile containers containing 90 ml Buffered Peptone Water (BPW)(**1**) and mixed thoroughly until the samples are evenly suspended.

**18**. One colony of *Clostridium perfringens* must be placed in 10 ml BPW and mixed to form an even suspension. 0.1 ml of the suspension must be added to the suspension in the preceding paragraph. This must be repeated for *Escherichia coli*.

**19**. These are then treated and examined in the same way as test samples. If no typical colonies are formed then that day's testing must be invalid and must be repeated.

## RHAN II

Y DULLIAU AR GYFER YNYSU SALMONELA

### A. Y DULL BACTERIOLEGOL

**1**.-(1) Rhaid dechrau'r profion pan ddaw'r sampl i law neu ar y diwrnod gwaith cyntaf sy'n caniatáu i'r dull hwn gael ei gwblhau. Os na ddechreuir y prawf ar y diwrnod y daw'r sampl i law rhaid ei storio mewn oergell hyd nes y bydd ei hangen. Os cafodd y sampl ei rhoi mewn oergell rhaid ei thynnu o'r oergell a'i storio ar wres ystafell am o leiaf bedair awr cyn i'r prawf ddechrau.

(2) Rhaid gweithredu'r profion yn ddyblyg gan ddefnyddio dwy gyfran 25 gram yr un o bob sampl a anfonwyd i'w phrofi.

**Diwrnod un**

**2**. Ar y diwrnod cyntaf, rhaid rhoi'r ddwy sampl 25 gram yn aseptigol mewn cynhwysydd sterilaidd sy'n cynnwys 225 ml o Ddwr Pepton Byfferog (BPW) a'u deor ar 37°C±1°C am 18 awr±2 awr.

**Diwrnod dau**

**3**. Ar yr ail ddiwrnod, rhaid plannu 0.1 ml o'r cynhwysydd BPW wedi'i ddeor mewn 10 ml o gawl Rappaports Vassiliadis (cawl RV)(**2**) a'i ddeor ar 41.5°C±0.5°C am 24 awr ±3awr.

(**1**) Buffered Pepton Water - *Gweler* Edel, W. and Kampelmacher, E.H. (1973) Bulletin of World Health Organisation, 48: 167-174, World Health Organisation Distribution and Sales, CH-1211, Genefa 27, Y Swistir (ISSN 0042-9686).

(**2**) Rappaports Vassiliadis Broth - *Gweler* Vassiliadis P, Pateraki E, Papaiconomou N, Papadkis J A, a Trichopoulos D (1976) Annales de Microbiologie (Institute Pasteur) 127B: 195-200. Elsevier, 23 rue Linois, 75724 Paris, Cedex 15, Ffrainc.

## PART II

METHODS FOR THE ISOLATION OF SALMONELLA

### A. BACTERIOLOGICAL METHOD

**1**.-(1) Tests must be begun on receipt of the sample or on the first working day which allows this method to be completed. If the test is not begun on the day of receipt the sample must be stored in a refrigerator until required. If the sample has been refrigerated it must be removed from the refrigerator and stored at room temperature for at least four hours before the test is started.

(2) Tests must be carried out in duplicate using two 25 gram portions of each sample submitted for testing.

**Day one**

**2**. On day one, each 25 gram sample must be placed aseptically in a container containing 225 ml Buffered Peptone Water (BPW) and incubated at 37°C±1oC for 18 hours±2 hours.

**Day two**

**3**. On day two, 0.1 ml from the container of incubated BPW must be inoculated into 10 ml Rappaports Vassiliadis broth (RV broth)(**2**) and incubated at 41.5°C±0.5°C for 24 hours ± 3 hours.

(**1**) Buffered Peptone Water - *See* Edel, W. and Kampelmacher, E.H. (1973) Bulletin of World Health Organisation, 48: 167-174, World Health Organisation Distribution and Sales, CH-1211, Geneva 27, Switzerland (ISSN 0042-9686).

(**2**) Rappaports Vassiliadis Broth - *See* Vassiliadis P, Pateraki E, Papaiconomou N, Papadkis J A, and Trichopoulos D (1976) Annales de Microbiologie (Institut Pasteur) 127B: 195-200. Elsevier, 23 rue Linois, 75724 Paris, Cedex 15, France.

**Diwrnod tri**

**4**. Ar y trydydd diwrnod, rhaid gosod y cawl RV ar ddau blât 90 milimetr o Agar Gwyrdd Gloyw (BGA)(**1**) neu ar un plât 90 milimetr o BGA ac un plât 90 milimetr o Agar Sylos Lysin Deocsicolad (XLD)(**2**) gan ddefnyddio dolen 2.5 mm mewn diamedr. Rhaid plannu defnyn yn y platiau sydd wedi'i gymryd o ymyl wyneb yr hylif drwy dynnu'r ddolen dros y cyfan o un plât mewn patrwm igam-ogam gan fynd ymlaen i'r ail blât heb aildrydanu'r ddolen. Rhaid i'r bwlch rhwng llinellau'r ddolen fod yn 0.5 cm- 1.0 cm. Rhaid deor y platiau ar 37°C ±2°C dros nos am 24 ± 3 awr. Rhaid ailddeor y cawl RV gweddilliol ar 41.5°C±0.5°C am 24 awr ychwanegol.

**5**. The residual RV broth must be reincubated at 41.5°C±0.5°C for a further 24 hours.

**Diwrnod pedwar**

**6**. Ar y pedwerydd diwrnod, rhaid archwilio'r platiau a rhaid is-feithrin lleiafswm o dair cytref o bob plât sy'n dangos amheuaeth o dyfiant Salmonela-

(a) ar blât agar gwaed;

(b) ar blât agar MacConkey(**3**); ac

(c) i gyfrwng biocemegol sy'n addas i adnabod Salmonela.

**Rhaid deor y cyfryngau hyn ar 37°C dros nos.**

**7**. Rhaid i'r cawl RV a ailddeorwyd gael ei osod ar blatiau fel a ddisgrifir ym mharagraff 4.

**Diwrnod pump**

**8**. Ar y pumed diwrnod, rhaid i'r cyfrwng cyfansawdd wedi'i ddeor neu'r hyn sy'n gyfwerth iddo gael ei archwilio a rhaid cofnodi'r canlyniadau, gan ddiystyru'r meithriniadau y mae'n amlwg nad ydynt yn rhai Salmonela. Rhaid cyflawni profion sleidiau serolegol sy'n defnyddio Salmonela amryfalent "O" ac amryfalent "H" (cyfnod 1 a 2) sera cyflynedig ar gytrefi detholedig a amheuir ac a gasglwyd o blatiau agar gwaed neu blatiau MacConkey. Os bydd adweithiau gyda un o'r sera neu yn y ddau rhaid dosbarthu'r cytrefi drwy seroleg sleidiau. Os gofynnir iddo'n ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i weithredydd y labordy anfon is-feithriniad at un o Labordai Milfeddygol Rhanbarthol Asiantaeth Labordai Milfeddygol yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer dosbarthu

(**1**) Brilliant Green Agar - *Gweler* Edel W and Kampelmacher E H (1969) Bulletin of World Health Organisation 41:297-306, World Health Organisation Distribution and Sales, CH-1211, Genefa 27, Y Swistir (ISSN 0042-9686).

(**2**) Xylose Lisene Deoxycholate Agar - *Gweler* Taylor W I, (1965) American Journal of Clinical Pathology, 44:471-475, Lippincott and Raven, 227E Washington Street, Philadelphia PA 19106, UDA.

(**3**) MacConkey Agar - *Gweler* (1963) International Standards for Drinking Water, World Health Distribution and Sales, CH-1211, Genefa 27, Y Swistir.

**Day three**

**4**. On day three, the RV broth must be plated out on to two 90 millimetre plates of Brilliant Green Agar (BGA)(**1**) or on to one 90 millimetre plate of BGA and one 90 millimetre plate of Xylose Lysine Deoxycholate Agar (XLD)(**2**) using a 2.5 mm diameter loop. The plates must be inoculated with a droplet taken from the edge of the surface of the fluid by drawing the loop over the whole of one plate in a zig zag pattern and continuing to the second plate without recharging the loop. The space between the loop streaks must be 0.5 cm - 1.0 cm. The plates must be incubated at 37°C ±2oC for 24 hours ± 3 hours.

**5**. The residual RV broth must be reincubated at 41.5°C±0.5°C for a further 24 hours.

**Day four**

**6**. On day four the plates must be examined and a minimum of 3 colonies from each plate showing suspicion of Salmonella growth must be subcultured-

(a) on to a blood agar plate;

(b) on to a MacConkey agar plate(**3**); and

(c) into biochemical media suitable for the identification of Salmonella.

**These media must be incubated at 37°C overnight.**

**7**. The reincubated RV broth must be plated out as described in paragraph 4.

**Day five**

**8**. On day five the incubated composite media or equivalent must be examined and the findings recorded, discarding cultures which are obviously not Salmonella. Slide serological tests must be performed using Salmonella polyvalent "O" and polyvalent "H" (phase 1 and 2) agglutinating sera on selected suspect colonies collected from the blood agar or MacConkey plates. If reactions occur with one or both sera, the colonies must be typed by slide serology. If requested in writing by the National Assembly , the operator of the laboratory must send a subculture to a Regional Veterinary Laboratory of the Veterinary Laboratories Agency of the Department for Environment, Food and Rural Affairs for further typing.

(**1**) Brilliant Green Agar - *See* Edel W and Kampelmacher E H (1969) Bulletin of World Health Organisation 41:297-306, World Health Organisation Distribution and Sales, CH-1211, Geneva 27, Switzerland (ISSN 0042-9686).

(**2**) Xylose Lisene Deoxycholate Agar - *See* Taylor W I, (1965) American Journal of Clinical Pathology, 44:471-475, Lippincott and Raven, 227E Washington Street, Philadelphia PA 19106, USA.

(**3**) MacConkey agar - *See* (1963) International Standards for Drinking Water, World Health Distribution and Sales, CH-1211, Geneva 27, Switzerland.

ymhellach.

**9**. Rhaid archwilio'r platiau y cyfeirir atynt ym mharagraff 7 a chymryd camau pellach yn ôl paragraff 6 ac 8.

**B. Y DULL DARGLUDIANT TRYDANOL**

**10**. Rhaid dechrau'r profion pan ddaw'r sampl i law neu ar y diwrnod gwaith cyntaf sy'n caniatáu i'r dull hwn gael ei gwblhau. Os na ddechreuir y prawf ar ddiwrnod cael y sampl rhaid ei storio mewn oergell hyd nes y bydd ei hangen. Os cafodd y sampl ei rhoi mewn oergell rhaid ei thynnu o'r oergell a'i storio ar wres ystafell am o leiaf bedair awr cyn i'r prawf ddechrau.

**Diwrnod un**

**11**. Ar y diwrnod cyntaf rhaid gweithredu'r profion yn ddyblyg drwy ddefnyddio dwy gyfran 25 gram o bob sampl a gyflwynir i'w phrofi. Rhaid rhoi'r ddwy sampl 25 gram yn aseptigol mewn cynhwysydd sterilaidd sy'n cynnwys 225 ml o Ddŵr Pepton/Lysin/Glwcos Byfferog (BPW/L/G)(**1**) a'u deor ar 37°C am 18 awr.

**Diwrnod dau**

**12.** Ar yr ail ddiwrnod rhaid ychwanegu'r BPW/L/G a ddeorwyd at gyfrwng Dwlsitol Selenit Cystin Trimethylamin-N-Ocsid (SC/T/D)(**2**) a Glwcos Lysin Decarbocsylas (LD/G)(**3**) mewn celloedd neu bantiau dargludo trydanol. Ar gyfer celloedd neu bantiau sy'n cynnwys cyfrwng mwy na 5 ml rhaid ychwanegu 0.2 ml o BPW/L/G ac ar gyfer celloedd neu bantiau sy'n cynnwys cyfrwng 5 ml neu lai rhaid ychwanegu 0.1 ml o BPW/L/G. Rhaid bod y celloedd neu'r pantiau wedi'u cysylltu â chyfarpar mesur dargludiant trydanol addas a osodwyd i fonitro a chofnodi newidiadau yn y dargludiant trydanol fesul 6 munud dros gyfnod o 24 awr. Rhaid cadw tymheredd y celloedd a'r pantiau ar 37°C.

(**1**) Buffered Peptone Water/Lysine/Glucose - *Gweler* Ogden I D (1988) International Journal of Food Microbilogy 7:287-297, Elsevier Science BV, PO Box 211, 1000 AE, Amsterdam, Yr Iseldiroedd (ISSN 0168-1695).

(**2**) Selenite Cystine Trimethylamine-N-Oxide Dulcitol - *Gweler* Easter, M C and Gibson, D M, (1985) Journal of Hygiene 94:245-262, Cambridge University Press, Caer-grawnt

(**3**) Lysine Decarboxylase Glucose - *Gweler* Ogden I D (1988) International Journal of Food Microbilogy 7:287-297, Elsevier Science BV, PO Box 211, 1000 AE, Amsterdam, Yr Iseldiroedd (ISSN 0168-1695).

**9**. The plates referred to in paragraph 7 must be examined and further action taken as in paragraph 6 and 8.

**B. ELECTRICAL CONDUCTANCE METHOD**

**10**. Tests must be begun on receipt of the sample or on the first working day which allows the following method to be completed. If the test is not begun on the day of receipt the sample must be stored in a refrigerator until required. If the sample has been refrigerated it must be stored at room temperature for at least four hours before the test is started.

**Day one**

**11**. On day one tests must be carried out in duplicate using two 25 gram portions of each sample submitted for testing. Each 25 gram sample must be placed aseptically in a sterile container containing 225 ml Buffered Peptone Water/Lysine/Glucose (BPW/L/G)(**1**) and incubated at 37°C for 18 hours.

**Day two**

**12**. On day two the incubated BPW/L/G must be added to Selenite Cystine Trimethylamine-N-Oxide Dulcitol (SC/T/D)(**2**) and Lysine Decarboxylase Glucose (LD/G)(**3**) media in electrical conductance cells or wells. For cells or wells containing more than 5 ml medium 0.2 ml of the BPW/L/G must be added and for cells or wells containing 5 ml or less medium 0.1 ml of the BPW/L/G must be added. Cells or wells must be connected to appropriate electrical conductance measuring equipment set to monitor and record changes in electrical conductance at 6 minute intervals over a 24 hour period. The temperature of cells and wells must be kept at 37°C.

(**1**) Buffered Peptone Water/Lysine/Glucose - *See* Ogden I D (1988) International Journal of Food Microbilogy 7:287-297, Elsevier Science BV, PO Box 211, 1000 AE, Amsterdam, Netherlands (ISSN 0168-1695).

(**2**) Selenite Cystine Trimethylamine-N-Oxide Dulcitol - *See* Easter, M C and Gibson, D M, (1985) Journal of Hygiene 94:245-262, Cambridge University Press, Cambridge.

(**3**) Lysine Decarboxylase Glucose- *See* Ogden I D (1988) International Journal of Food Microbilogy 7:287-297, Elsevier Science BV, PO Box 211, 1000 AE, Amsterdam, Netherlands (ISSN 0168-1695).

**Diwrnod tri**

**13**. Ar y trydydd diwrnod, ar ddiwedd y cyfnod 24 awr, rhaid i'r wybodaeth a gofnodwyd gan y cyfarpar mesur dargludiant gael ei dadansoddi a'i dehongli gan ddefnyddio'r meini prawf a ddiffinnir gan weithgynhyrchwyr y cyfarpar. Os dynodir dros dro bod pant neu gell yn cadarnhau bod Salmonela'n bresennol, rhaid cadarnhau'r canlyniad drwy is-feithrin cynnwys y pant neu'r gell ar ddau blât 90 milimetr o BGA neu ar un plât 90 milimetr o BGA ac un plât 90 milimetr o Agar Sylos Lysin Deocsicolad (XLD) sy'n defnyddio dolen 2.5 mm ei diamedr. Rhaid plannu defnyn yn y platiau sydd wedi'i gymryd o ymyl wyneb yr hylif drwy dynnu'r ddolen dros y cyfan o'r naill blât mewn patrwm igam-ogam gan fynd ymlaen i'r plât arall heb ailwefru'r ddolen. Rhaid i'r bwlch rhwng llinellau'r ddolen fod yn 0.5 cm- 1.0 cm. Rhaid deor y platiau ar 37°C dros nos.

**Diwrnod pedwar**

**14**. Ar y pedwerydd diwrnod, rhaid archwilio'r platiau a rhaid is-feithrin lleiafswm o 3 cytref o bob plât sy'n dangos amheuaeth o dyfiant Salmonela-

(a) ar blât agar gwaed;

(b) ar blât agar MacConkey; ac

(c) i gyfrwng biocemegol sy'n addas i adnabod Salmonela.

Rhaid deor y cyfryngau hyn ar 37°C dros nos.

**Diwrnod pump**

**15**. ar y pumed diwrnod, rhaid i'r cyfrwng cyfansawdd wedi'i ddeor neu'r hyn sy'n gyfwerth iddo gael ei archwilio a rhaid cofnodi'r canlyniadau, gan ddiystyru'r meithriniadau y mae'n amlwg nad ydynt yn rhai Salmonela. Rhaid cyflawni profion sleidiau serolegol sy'n defnyddio Salmonela amryfalent "O" ac amryfalent "H" (cyfnod 1 a 2) sera cyfludol ar gytrefi detholedig a amheuir ac a gasglwyd o blatiau agar gwaed neu blatiau MacConkey. Os bydd adweithiau yn un o'r sera neu yn y ddau rhaid dosbarthu'r cytrefi drwy seroleg sleidiau. Os gofynnir iddo'n ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i weithredydd y labordy anfon is-feithriniad at un o Labordai Milfeddygol Rhanbarthol Asiantaeth Labordai Milfeddygol yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer dosbarthu ymhellach.

**Day three**

**13**. On day three, at the end of the 24 hour period, the information recorded by the conductance measuring equipment must be analysed and interpreted using criteria defined by the manufacturers of the equipment. Where a well or cell is provisionally identified as being positive for Salmonella, the result must be confirmed by subculturing the contents of the well or cell on to two 90 millimetre plates of BGA or on to one 90 millimetre plate of BGA and one 90 millimetre plate of Xylose Lysine Deoxycholate Agar (XLD) using a 2.5 mm diameter loop. The plates must be inoculated with a droplet taken from the edge of the surface of the fluid by drawing the loop over the whole of one plate in a zig zag pattern and continuing to the second plate without recharging the loop. The space between the loop streaks must be 0.5 cm - 1.0 cm. The plates must be incubated at 37°C overnight.

**Day four**

**14**. On day four the plates must be examined and a minimum of 3 colonies from each plate showing suspicion of Salmonella growth must be subcultured-

(a) on to a blood agar plate;

(b) on to a MacConkey agar plate; and

(c) into biochemical media suitable for the identification of Salmonella.

These media must be incubated at 37°C overnight.

**Day five**

**15**. On day five the incubated composite media or equivalent must be examined and the findings recorded, discarding cultures which are obviously not Salmonella. Slide serological tests must be performed using Salmonella polyvalent "O" and polyvalent "H" (phase 1 and 2) agglutinating sera on selected suspect colonies collected from the blood agar or MacConkey plates. If reactions occur with one or both sera, the colonies must be typed by slide serology. If requested in writing by the National Assembly , the operator of the laboratory must send a subculture to a Regional Veterinary Laboratory of the Veterinary Laboratories Agency of the Department for Environment, Food and Rural Affairs for further typing.

**RHAN III**

Y DULL AR GYFER YNYSU
*ENTEROBACTERIACEAE*

**1**. Rhaid dechrau'r profion pan ddaw'r sampl i law neu ar y diwrnod gwaith cyntaf sy'n caniatáu i'r dull hwn gael ei gwblhau. Os na ddechreuir y prawf ar y diwrnod y daw'r sampl i law rhaid ei storio mewn oergell rhwng 2°C a 8°C hyd nes y bydd ei hangen. Os cafodd y sampl ei rhoi mewn oergell rhaid ei thynnu o'r oergell a'i storio ar wres ystafell am o leiaf un awr cyn i'r prawf ddechrau.

**Samplau**

**2**. Rhaid gweithredu'r profion drwy ddefnyddio pum cyfran 10 gram o bob sampl a gyflwynir i'w phrofi. Rhaid rhoi pob sampl 10 gram yn aseptigol mewn cynhwysydd sterilaidd sy'n cynnwys 90 ml o Ddŵr Pepton Byfferog a'i chymysgu'n drylwyr hyd nes bod y samplau mewn daliant gwastad.

**Planiadau**

**3**. Am bob cyfran o'r sampl rhaid trosglwyddo 1 ml o hydoddiant i ddysgl petri 90 mm ddi-haint (yn ddyblyg). Rhaid bod y platiau wedi'u labelu i ddynodi cyfran y sampl y cymerwyd yr hydoddiant ohoni. Rhaid ychwanegu 15 ml o Agar Glwcos Bustl Coch Fioled (VRBGA)(**1**) ar dymheredd o 47°C±2°C ym mhob dysgl petri ac ar unwaith ei gymysgu gan bwyll drwy droelli'r ddysgl bum gwaith yn glocwedd a phum gwaith yn wrthglocwedd.

**4**. Unwaith y mae'r agar wedi ceulo, rhaid troshaenu pob plât agar â 10 ml VRBGA pellach o agar ar dymheredd o 47°C±2°C. Pan fydd y droshaen wedi ceulo rhaid troi'r platiau wyneb i waered a'u deor yn anerobig ar 36°C±1°C am 20 awr±2 awr.

**Samplau â chytrefi *Enterobacteriaceae***

**5**. Ar ôl y deoriad rhaid archwilio pob set o blatiau dyblyg am gytrefi sy'n nodweddu *Enterobacteriaceae* (cytrefi porffor 1-2 mm eu diamedr). Rhaid cyfrif yr holl gytrefi nodweddiadol ar bob plât a chymryd cymedr rhifyddol y platiau dyblyg.

Bydd y sampl yn methu dros dro naill ai-

(a) os bydd unrhyw gymedr rhifyddol dros 30(**2**); neu

(**1**) Violet Red Bile Glucose Agar - *Gweler* Mossell D A A, Eelderink I, Koopmans M, van Rossem F (1978) Laboratory Practice 27 No. 12 1049-1050; Emap Maclaren, PO Box 109, Maclaren House, 19 Scarbrook Road, Croydon CR9 1QH.

(**2**) Mae cymedr rhifyddol yn gyfwerth â $3x10^2$ o unedau ffurfio cytref fesul gram o'r sampl wreiddiol.

**PART III**

METHOD FOR THE ISOLATION OF
*ENTEROBACTERIACEAE*

**1**. Tests must be begun on receipt of the sample or on the first working day which allows this method to be completed. If the test is not begun on the day of receipt the sample must be stored in a refrigerator until required at between 2°C and 8°C. If the sample has been refrigerated it must be removed from the refrigerator and stored at room temperature for at least one hour before the test is started.

**Samples**

**2**. Tests must be carried out using five 10 gram portions of each sample submitted for testing. Each 10 gram sample must be placed aseptically in a sterile container containing 90 ml Buffered Peptone Water and mixed thoroughly until the sample is evenly suspended.

**Inoculations**

**3**. For each portion of the sample 1 ml of solution must be transferred to a sterile 90 mm petri dish (in duplicate). The plates must be labelled to identify the portion of sample they were taken from. 15 ml of Violet Red Bile Glucose Agar (VRBGA)(**1**) at a temperature of 47°C±2°C must be added to each petri dish and immediately gently mixed by swirling the dish with five clockwise and five anticlockwise circular movements.

**4**. Once the agar has set, each agar plate must be overlaid with a further 10 ml VRBGA at a temperature of 47°C±2°C. Once the overlay has set, the plates must be inverted and incubated aerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

**Samples with colonies of *Enterobacteriaceae***

**5**. After incubation each set of duplicate plates must be examined for colonies characteristic of *Enterobacteriaceae* (purple colonies 1 - 2 mm in diameter). All characteristic colonies on each plate must be counted and the arithmetic mean of the duplicate plates taken.

The sample provisionally fails if either-

(a) any arithmetic mean is above 30(**2**); or

(**1**) Violet Red Bile Glucose Agar - *See* Mossell D A A, Eelderink I, Koopmans M, van Rossem F (1978) Laboratory Practice 27 No. 12 1049-1050; Emap Maclaren, PO Box 109, Maclaren House, 19 Scarbrook Road, Croydon CR9 1QH.

(**2**) An arithmetic mean of 30 is equivalent to 3x102 colony forming units per gram of original sample.

(b) os bydd tri neu ragor o gymedrau rhifyddol dros 10;

ac yn yr achos hwnnw rhaid dilyn y weithdrefn ganlynol er mwyn cadarnhau a yw'r cytrefi yn *Enterobacteriaceae* neu beidio.

**6**. Ar ôl cyfrif y cytrefi, rhaid cymryd cytrefi nodweddiadol ar hap o'r platiau agar, a rhaid i'r nifer fod o leiaf yn ail isradd y cytrefi a gyfrifwyd. Rhaid is-feithrin y cytrefi ar blât agar gwaed a'u deor yn aerobig ar 37°C±1°C am 20 awr±2 awr.

**Archwilio'r is-feithriniadau**

**7**. Rhaid cyflawni prawf ocsidas a phrawf eplesiad glwcos ar bob un o'r pum cytref a gafodd eu his-feithrin. Rhaid ystyried bod cytrefi sy'n ocsidas-negyddol ac yn eplesiad glwcos-cadarnhaol yn *Enterobacteriaceae*.

**8**. Os na phrofir bod yr holl gytrefi yn *Enterobacteriaceae*, rhaid i'r cyfanswm cyfrif ym mharagraff 5 gael ei leihau yn gymesur cyn cadarnhau a ddylai'r sampl fethu neu beidio.

**Dulliau rheoli**

**9**. Rhaid cynnal profion rheoli bob dydd wrth ddechrau profi gan ddefnyddio-

(a) *Escherichia* coli NCTC 10418 heb fod yn fwy na saith niwrnod oed ar adeg ei ddefnyddio; ac

(b) protein anifeiliaid neu gompost neu weddill traul wedi'i brosesu sy'n rhydd rhag *Enterobacteriaceae*.

**10**. Rhaid rhoi cyfran 10 gram o'r protein anifail wedi'i rendro yn aseptigol mewn cynhwysydd sterilaidd sy'n cynnwys 90 ml BPW a'i gymysgu'n drwyadl nes bod y sampl mewn daliant gwastad.

**11**. Rhaid rhoi un gytref o *Escherichia coli* mewn 10 ml BPW a'i gymysgu i ffurfio daliant gwastad. Rhaid ychwanegu 0.1 ml o'r daliad at y daliad yn y paragraff blaenorol.

**12**. Yna caiff hon ei thrin a'i harchwilio yn yr un modd â'r samplau prawf. Os na ffurfir cytrefi nodweddiadol yna rhaid bod profion y diwrnod hwnnw'n annilys a rhaid eu hailadrodd.

(b) three or more arithmetic means are above 10;

in which case the following procedure must be followed to establish whether or not the colonies are *Enterobacteriaceae*.

**6**. After counting the colonies, characteristic colonies must be taken at random from the agar plates, the number being at least the square root of the colonies counted. The colonies must be subcultured onto a blood agar plate and incubated aerobically at 37°C±1°C for 20 hours±2 hours.

**Examination of subcultures**

**7**. An oxidase test and a glucose fermentation test must be performed on each of the five subcultured colonies. Colonies which are oxidase-negative and glucose fermentation-positive must be considered to be *Enterobacteriaceae*.

**8**. If not all of the colonies prove to be *Enterobacteriaceae*, the total count in paragraph 5 must be reduced in proportion prior to establishing whether or not the sample should fail.

**Controls**

**9**. Control tests must be carried out each day that a test is initiated using-

(a) *Escherichia* coli NCTC 10418 no more than seven days old at time of use; and

(b) processed animal protein or compost or digestion residue which is free of *Enterobacteriaceae*.

**10**. A 10 gram portion of the rendered animal protein must be placed aseptically in a sterile container containing 90 ml BPW and mixed thoroughly until the sample is evenly suspended.

**11**. One colony of *Escherichia coli* must be placed in 10 ml BPW and mixed to form an even suspension. 0.1 ml of the suspension must be added to the suspension in the preceding paragraph.

**12**. This is then treated and examined in the same way as test samples. If no typical colonies are formed then that day's testing must be invalid and must be repeated.

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

W312/05/06 ON